WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adolygiad Ansawdd Data

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Blwyddyn archwilio:** 2012-13

**Cyhoeddwyd:** Chwefror 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 429A2013

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd a'i staff) a, lle bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Melanie Watson, Huw Lloyd Jones a Gwilym Bury.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cefndir | 4 |
| Canfyddiadau a chasgliadau'r adolygiad | 4 |
| Mae mân gamgyfrifiadau mewn perthynas â'r Dangosyddion Perfformiad mewn rhai achosion ond nid ydynt wedi achosi newidiadau sylweddol i werthoedd Dangosyddion Perfformiad | 5 |
| Atodiadau | |
| Crynodeb o ganlyniadau ein hadolygiad | 6 |

# Adroddiad cryno

## Cefndir

**1.** Yn ystod 2013, archwiliodd Swyddfa Archwilio Cymru sampl o fesurau perfformiad a systemau data gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor). Dyma'r prif gwestiynau roedd yr adolygiad yn ceisio'u hateb:

- A yw'r Cyngor yn defnyddio data priodol fel bod modd adrodd ar gynnydd mewn perthynas â blaenoriaethau ac amcanion gwella a chyhoeddi'r cynnydd hwnnw?
- A oes prosesau a rheolaethau cadarn ar waith i reoli'r gwaith o ddethol, casglu, prosesu a dadansoddi data?
- A yw'r cyngor yn adrodd canlyniadau cywir?

**2.** Mae crynodeb o'n casgliadau yn Atodiad 1. Mae disgrifyddion yn seiliedig ar i ba raddau mae'r Cyngor wedi cyflwyno, ac yn gweithredu, prosesau a rheolaethau effeithiol mewn perthynas â'r systemau data sy'n cefnogi mesurau o berfformiad.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganlyniadau ein hadolygiad. Nid yw'n dod i gasgliad am gywirdeb yr holl ffigurau alldro sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad perfformiad cyhoeddedig y Cyngor. Mae hyn oherwydd bod cael systemau data cadarn ar waith yn lleihau, ond nid yn dileu, y posibilrwydd bod camgymeriad yn y data a adroddir.

## Canfyddiadau a chasgliadau'r adolygiad

**4.** Roedd ein hadolygiad diweddaraf yn bwrw golwg ar wyth system ddata, dwy ohonynt yn Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol (NSI), un yn Fesur Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM)[1] , a phump yn fesurau perfformiad lleol. Roeddent yn cwmpasu'r amcanion gwella a/neu flaenoriaethau canlynol:

- Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel;
- Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas;
- Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol;
- Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir gydag economi ffyniannus; ac
- Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais.

**5.** Mae Atodiad 1 yn crynhoi ein hadolygiad o systemau data'r Cyngor ar gyfer y mesurau perfformiad a ddewiswyd i'w hadolygu.

[1] Datblygir Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus gan yr Uned Ddata a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr gwasanaethau.

**6.** Gwelsom y canlynol:

## Mae mân gamgyfrifiadau mewn perthynas â'r Dangosyddion Perfformiad mewn rhai achosion ond nid ydynt wedi achosi newidiadau sylweddol i werthoedd Dangosyddion Perfformiad

**7.** Wrth gynnal adolygiad manwl o'r mesurau perfformiad dethol nodwyd y canlynol:

- (LCS002) *Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol:* Nid oedd nifer yr ymweliadau a nodwyd yn y Dangosydd Perfformiad drafft wedi ystyried ymweliadau (ac ymweliadau a ganslwyd) a fu yn 2012-13 ond a oedd wedi'u hychwanegu at y system ar ôl 31 Mawrth 2013. Erbyn ein harchwiliad, roedd y rhain wedi'u cynnwys a newidiwyd cyfanswm yr ymweliadau.
- (SCC037) *Cyfartaledd sgôr pwyntiau mewn cymwysterau allanol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal 16 oed, mewn unrhyw leoliad dysgu a gynhelir gan yr awdurdod lleol:* Diwygiwyd y rhifiadur ar ôl i ni sylwi bod nifer fach o ysgolion yn darparu gwybodaeth nad oedd yn cyd-fynd yn llwyr â diffiniad y Dangosydd Perfformiad. Cysylltwyd â'r ysgolion unwaith eto, ail-gyfrifwyd y Dangosydd Perfformiad a newidiodd y ffigur terfynol mymryn.
- Gwnaed mân newidiadau i dri Dangosydd Perfformiad arall lle nad oedd y cyfrifiadau terfynol ar gyfer yr archwiliad yn cytuno â'r Dangosydd Perfformiad drafft:
  - *(M4.1) canran y bobl hŷn sydd ddigon iach ar ôl 6 wythnos o ofal galluogi fel nad oes angen gofal arnynt bellach neu y gellir eu trosglwyddo i gynllun gofal llai dwys;*
  - *(M8.1) canran gwasanaethau rheng flaen sy'n cyrraedd Safon Rhagoriaeth Cwsmeriaid; a*
  - *(PSR007a) canran yr HMOs sydd angen trwydded sydd wedi'u trwyddedu.*

# Atodiad 1

## Crynodeb o ganlyniadau ein hadolygiad

| Disgrifydd | Dangosyddion a adolygwyd a gafodd y sgôr hwn | Amodau/sylwadau |
|---|---|---|
| Nid yw'r system ddata yn addas i'r diben ac yn cael ei chynnal yn effeithiol | • (BCT004) Canran y ceisiadau 'cynllun llawn' Rheoli Adeiladu sy'n cael eu gwirio o fewn 15 diwrnod yn ystod y flwyddyn<br>• (SCC025) canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddigwyddodd yn unol â'r rheoliadau<br>**Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel**<br>• (M2.3) canran y digwyddiadau graffiti a gliriwyd o fewn pedwar diwrnod gwaith | Dangosyddion Perfformiad wedi'u harchwilio ac yn gywir. |
| Mae'r system ddata yn ddigonol ond gellid gwneud rhai gwelliannau | ***Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol***<br>• (M4.1) canran y bobl hŷn sydd ddigon iach ar ôl 6 wythnos o ofal galluogi fel nad oes angen gofal arnynt bellach neu y gellir eu trosglwyddo i gynllun gofal llai dwys.<br>***Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais***<br>• (M8.1) canran gwasanaethau rheng flaen sy'n cyrraedd Safon Rhagoriaeth Cwsmeriaid.<br>***Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas***<br>• (PSR007a) canran yr HMOs sydd angen trwydded sydd wedi'u trwydded. | Dim amodau.<br>Gwnaed mân newidiadau ar ôl ail-gyfrifo:<br>• M4.1 (o 77.39 y cant i 77.31 y cant).<br>• M8.1 (o 23.7 y cant i 25.4 y cant).<br>• HMOs wedi'u trwyddedu (o 51 y cant i 54 y cant). |

| Disgrifydd | Dangosyddion a adolygwyd a gafodd y sgôr hwn | Amodau/sylwadau |
|---|---|---|
| Mae rhai gwendidau yn y system ddata ac mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â nhw | • (SCC037) Cyfartaledd sgôr pwyntiau mewn cymwysterau allanol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal 16 oed, mewn unrhyw leoliad dysgu a gynhelir gan yr awdurdod lleol.<br>• (LCS002) Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. | Gwnaed mân newidiadau ar ôl ail-gyfrifo:<br>• SCC037 (o 259 i 258); ac<br>• LCS002 (o 7431 i 7523). |
| Mae rhai gwendidau yn y system ddata a rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â nhw | Dim dangosyddion. | |
| Nid oes system wedi'i rhoi ar waith i bennu perfformiad yn erbyn y mesur | Dim dangosyddion. | |

WALES AUDIT OFFICE

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk